



Canllaw – Llenwi Ffurflen Gais am Swydd

Canllaw – Llenwi Ffurflen Gais am Swydd

Cynnwys

Trosolwg	3
Hysbysiad Preifatrwydd i Ymgeiswyr	4
Manylion personol.....	4
Addysg, Hyfforddiant ac Aelodaeth.....	4
Cyflogaeth.....	4
Datganiad Ategol	5
Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)	5
Cynlluniau Gwarantu Cyfweliad	6
Cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd	6
Gwarantu Cyfweliad i Gyn-Filwyr	7
Perthynas gydag Aelodau neu Weithwyr	8
Argaeledd ar gyfer Cyfweliad.....	8
Geirdaon.....	8
Geirdaon ymgeiswyr allanol	9
Geirdaon ymgeiswyr mewnol	9
Geirdaon ar gyfer swyddi o fewn gofal cartref	9
Datganiad	9

Canllaw – Llenwi Ffurflen Gais am Swydd

Trosolwg

Gallwch wneud cais ar-lein yn www.sirddinbych.gov.uk Darllenwch y canllawiau hyn cyn llenwi eich ffurflen gais.

Nid yw CV ar ei ben ei hun yn dderbyniol. Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau yn defnyddio'r ffurflen gais ar-lein (mae fformatau eraill ar gael ar gais).

Mae'n rhaid llenwi pob rhan o'r ffurflen gais oni nodir yn wahanol.

Cofiwch lenwi a dychwelyd y ffurflen monitro cyfle cyfartal gan ei bod yn rhan hanfodol o'n cyfrifoldeb cyfle cyfartal. Bydd eich atebion yn cael eu trin yn gyfrinachol ac ni fyddant yn effeithio ar eich ffurflen gais mewn unrhyw ffordd.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Ni fydd unrhyw ffurflen gais a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na ffurflen gais a gyflwynir yn Saesneg.

Os ydych chi'n cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad neu ganolfan asesu, nodwch yn y blwch isod a hoffech chi gael cyfweliad neu asesiad Cymraeg.

Bydd yr holl ohebiaeth ynglŷn â'ch cais a'r broses recriwtio yn cael ei hanfon i'r cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd gennych chi i fewngofnodi i'r ffurflen gais. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw wahoddiad i gyfweliad a'ch contract cyflogaeth os ydych chi'n llwyddiannus.

Ar ôl i chi gyflwyno'ch ffurflen gais byddwch yn derbyn neges awtomatig gan AD yn cadarnhau bod eich cais wedi'i dderbyn. Os nad ydych chi'n derbyn y neges hon, cysylltwch â'r tîm AD. Cofiwch edrych yn eich ffolder sbam cyn ffonio.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach ynglŷn â'r ffurflen gais neu'r broses recriwtio, anfonwch neges e-bost i cyswlltad@sirddinbych.gov.uk neu ffoniwch 01824 706200 yn ystod oriau busnes, o 8:30am tan 5:00pm ddydd Llun i ddydd Iau, ac o 8:30am tan 4:30pm ddydd Gwener.

Canllaw – Llenwi Ffurflen Gais am Swydd

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg.

Hysbysiad Preifatrwydd i Ymgeiswyr

Cyn i chi llenwi'r ffurflen gais bydd gofyn i chi ddarllen yr Hysbysiad Preifatrwydd i Ymgeiswyr a thicio i gadarnhau eich bod wedi darllen a deall yr wybodaeth. Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn am y datganiad hwn, cysylltwch ag AD.

Manylion personol

Mae'r adran hon yn gofyn am fanylion sylfaenol amdanoch chi. Rhowch yr holl fanylion fel y gofynnir a gwnewch yn siŵr bod eich manylion cyswllt yn gywir gan mai dyma'r wybodaeth y byddwn yn ei defnyddio i gysylltu â chi. Cofiwch hefyd nodi cyfeiriad e-bost (os oes gennych chi un).

Gallwn eich sicrhau y cedwir y casgliad o ddata personol i isafswm ac yn berthnasol i'r swydd dan sylw, yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Addysg, Hyfforddiant ac Aelodaeth

Cofiwch nodi unrhyw arholiad/cwrs rydych chi wedi'i gwblhau neu sydd ar y gweill, a'ch canlyniadau, gan y bydd rhan o'r broses ddethol yn seiliedig ar yr addysg a'r hyfforddiant a restrir yn y manylion am yr unigolyn. Os ydych chi'n cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad, bydd yn rhaid i chi ddarparu prawf gwreiddiol o'ch cymwysterau a dod â'r dogfennau efo chi i'r cyfweliad. Mae'r holl benodiadau yn amodol ar brawf o gymwysterau.

Cyflogaeth

Dylech llenwi'r adran hon yn llawn, gan nodi pob cyfnod o gyflogaeth ers gadael addysg llawn amser, yn ogystal â dyddiadau sy'n dangos y mis a'r flwyddyn y cawsoch eich penodi neu y gadawoch eich swydd. Mae'n rhaid i chi nodi unrhyw fwlch cyflogaeth yn glir, gan gynnwys dyddiadau, ac egluro'r rheswm dros y bwlch mewn cyflogaeth, h.y. magu teulu, gofalu am berthynas, blwyddyn i ffwrdd ac ati.

Canllaw – Llenwi Ffurflen Gais am Swydd

Datganiad Ategol

Dyma'ch cyfle i hyrwyddo eich hun a rhoi tystiolaeth eich bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol a dymunol a amlinellir yn y manylion am yr unigolyn. Rhowch enghreifftiau a dangoswch, lle bo modd, sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y manylion am yr unigolyn a chofiwch gynnwys unrhyw ddi-ddordeb neu enghreifftiau eraill a allai fod yn berthnasol i'r swydd. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fodloni'r holl feini prawf hanfodol (o leiaf) er mwyn cael eu gwahodd am gyfweiliad.

Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)

Dylech lenwi'r adran hon os yw'r pecyn swydd wag yn nodi bod angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Ar gyfer swyddi lle mae mynediad sylweddol at blant ac/neu oedolion, bydd angen datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn defnyddio system ffiltro, ac felly yn ddibynnol ar y math o GDG dydi rhai rhybuddion, ceryddon ac amodau ddim yn cael eu datgelu gan eu bod yn cael eu 'gwarchod' o dan Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyd 1974 (Eithriadau) 1975.

Mae hyn yn golygu nad oes angen iddyn nhw gael eu datgelu i gyflogwyr, ac os ydyn nhw'n cael eu datgelu, ni all cyflogwyr eu cymryd nhw i ystyriaeth.

Ar wiriad GDG Safonol ac Uwch, bydd y canlynol yn cael ei ddatgelu bob tro, waeth pryd y derbyniwyd yr euogfarn:

- Holl euogfarnau ar gyfer troseddau penodedig
- Rhybuddion i oedolion ar gyfer troseddau penodedig
- Holl euogfarnau wnaeth olygu dedfryd o garchar

Bydd cofnodion eraill a fydd yn cael eu datgelu yn dibynnu ar bryd y derbyniwyd y rhybudd neu euogfarn. Bydd y canlynol yn cael ei ddatgelu:

- Unrhyw rybudd i oedolyn am drosedd amhenodol wedi'i dderbyn o fewn y 6 mlynedd diwethaf.

Canllaw – Llenwi Ffurflen Gais am Swydd

- Unrhyw rybudd i oedolyn am drosedd amhenodol wedi'i dderbyn o fewn yr 11 mlynedd diwethaf.
- Unrhyw rybudd i ieuenctid am drosedd amhenodol wedi'i dderbyn o fewn yr 5 mlynedd diwethaf.

Nid oes raid i chi ddatgelu troseddau sydd ddim wedi'u cynnwys yn y rheolau uchod.

Bydd 'trosedd penodedig' wastad yn cael ei ddatgelu ar dystysgrif GDG Safonol neu Uwch lle mae euogfarn neu rybudd fel oedolyn. Mae rhestr lawn o'r Troseddau Penodedig ar gael yma <https://www.gov.uk/government/publications/dbs-list-of-offences-that-will-never-be-filtered-from-a-criminal-record-check>

Sylwer fod gwiriadau Uwch o bosib yn cynnwys gwybodaeth sydd yn berthnasol i rybudd neu euogfarn warchodedig os bydd yr heddlu yn ystyried ei fod yn berthnasol i'r gweithlu y mae'r unigolyn yn bwriadu gweithio ynddo. Mae penderfyniadau i gynnwys gwybodaeth yn y modd hwn yn ddarostyngedig i ganllawiau statudol.

Bydd unrhyw wybodaeth a roddir yn cael ei hystyried wrth ystyried a ydych chi'n addas ar gyfer cyflogaeth.

Cynlluniau Gwarantu Cyfweliad

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu dau gynllun gwarantu cyfweliad, sy'n golygu gwarant y bydd unigolion sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn cael cyfweliad am swydd wag. Mae'r cynllun Cyflogwr Hyderus o Ran Anabledd yn cefnogi ymgeiswyr sydd ag anabledd, a'r cynllun Gwarantu Cyfweliad i Gyn-filwyr yn cefnogi'r rheiny a ddiffinnir fel Cyn-filwyr.

Cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn 'Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd' ac wedi ymrwymo i gyfweld pob ymgeisydd gydag anabledd sy'n bodloni holl feini prawf hanfodol y swydd yr ymgeisiwyd amdani. Os ydych chi'n ymgeisio am swydd dan y 'Cynllun Gwarantu Cyfweliad' llenwch adran berthnasol y ffurflen gais a rhowch wybod i ni am unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen i sicrhau bod y cyfweliad yn hygyrch i chi.

Canllaw – Llenwi Ffurflen Gais am Swydd

Fel cyflogwr hyderus o ran anabledd, rydym ni wedi ymrwmo i'r canlynol:

- Denu a recriwtio pobl gydag anabledd
- Darparu proses recriwtio gynhwysol a hygyrch
- Cynnig cyfweiliad i ymgeiswyr gydag anabledd sy'n bodloni gofynion sylfaenol y swydd
- Bod yn hyblyg wrth asesu pobl fel bod gan bobl gydag anabledd y cyfle gorau i arddangos eu bod yn gallu gwneud y swydd
- Cynnig a gwneud addasiadau rhesymol yn ôl yr angen
- Annog ein cyflenwyr a'n bartneriaid i fod yn hyderus o ran anabledd
- Sicrhau bod gweithwyr yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth cydraddoldeb i bobl anabl
- Hyrwyddo diwylliant o fod yn hyderus o ran anabledd
- Cefnogi gweithwyr i reoli eu hanableddau neu eu cyflyrau iechyd
- Sicrhau nad oes rhwystrau i staff anabl ddatblygu a dringo'r ysgol yrfa
- Sicrhau bod rheolwyr yn gwybod sut y gallent gefnogi staff sy'n sâl neu'n absennol o'r gwaith
- Gwerthfawrogi a gwrando ar adborth gan staff gydag anabledd
- Adolygu'r hunanasesiad hyderus o ran anabledd yn rheolaidd

Gwarantu Cyfweiliad i Gyn-Filwyr

Mae'r cynllun Gwarantu Cyfweiliad i Gyn-Filwyr yn cefnogi ein Cyfamod Cymunedol Y Lluoedd Arfog, ac yn golygu ein bod wedi ymrwmo i gyfweild yr holl ymgeiswyr sydd yn gyn aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol am un diwrnod o leiaf.

Mae'r Llywodraeth yn diffinio Cyn-filwyr fel "unrhyw un sydd wedi gwasanaethau am o leiaf un diwrnod yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi (Arferol neu Wrth Gefn) neu'r Llynges Fasnachol, sydd wedi gweld dyletswydd ar weithrediadau milwrol cyfreithiol diffiniedig" ac felly mae Cyngor Sir Ddinbych yn defnyddio'r un diffiniad.

Canllaw – Llenwi Ffurflen Gais am Swydd

Os ydych yn gwneud cais am y swydd hon o dan Gynllun Gwarantu Cyfweliad i Gyn-Filwyr, ticiwch y blwch perthnasol ar y ffurflen gais. Bydd ymgeiswyr sydd wedi nodi eu bod yn dymuno cael eu hystyried o dan y cynllun hwn ac sydd yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol, yn cael eu gwahodd am gyfweliad.

Perthynas gydag Aelodau neu Weithwyr

Er mwyn sicrhau bod pob person sy'n rhan o'r broses o ddethol staff yn wrthrychol, mae arnom ni angen gwybod a ydych chi'n perthyn neu gyda pherthynas bersonol agos gydag Aelod Etholedig (neu unrhyw aelod o'r corff llywodraethu os ydych chi'n gwneud cais am swydd mewn ysgol) neu weithiwr i Gyngor Sir Ddinbych. Os yn gwneud cais am rôl gyda Hamdden Sir Ddinbych Cyf mae'n rhaid i ymgeiswyr ddatgelu eu holl berthnasau gydag unrhyw Aelodau o'r Bwrdd neu unrhyw weithiwr cyflogedig â Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Os felly, nodwch y wybodaeth ar y ffurflen gais. Bydd ymgeisydd sy'n methu datgelu perthynas yn fwriadol yn cael ei wahardd rhag penodiad.

Argaeledd ar gyfer Cyfweliad

Nodwch unrhyw ddyddiad o fewn y ddeufis nesaf nad ydych chi ar gael ar gyfer cyfweliad, os nad yw'r hysbyseb eisoes wedi nodi dyddiad y cyfweliad. Bydd y panel recriwtio yn ceisio trefnu dyddiad addas i ymgeiswyr gan ystyried y dyddiadau a restrir isod (ond ni ellir sicrhau hynny).

Geirdaon

Byddwn yn gofyn am eirdaon ar ôl gwneud 'cynnig o gyflogaeth'. Ni fydd modd i ymgeiswyr llwyddiannus ddechrau gweithio hyd nes ein bod wedi derbyn geirdaon boddhaol. Bydd pob penodiad yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol.

Byddwn yn derbyn geirdaon cymeriad os yw'r ymgeisydd newydd adael yr ysgol neu heb gael ei gyflogi. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd yn rhaid i chi ddarparu un canolwr sy'n uwch aelod y staff yn eich ysgol, coleg neu brifysgol a dylai'r canolwr arall allu darparu geirda cymeriad addas.

Canllaw – Llenwi Ffurflen Gais am Swydd

Geirdaon ymgeiswyr allanol

Mae'n rhaid i chi ddarparu enw a chyfeiriad eich dau gyflogwr diwethaf, er mwyn i ni ofyn am eirdaon i gefnogi'ch cais. Os yw'r ddau ganolwr yn cwmpasu cyfnod sy'n llai na thair blynedd, yna bydd yn rhaid i chi ddarparu manylion eich holl gyflogwyr yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Os ydych chi'n gwneud cais am swydd mewn ysgol, ni ddylech nodi aelodau etholedig nac unrhyw aelod o'r Corff Llywodraethu fel canolwyr. Byddai gwneud hynny yn eich gwneud yn anghymwys i gael eich penodi.

Geirdaon ymgeiswyr mewnol

Mae'n rhaid i chi nodi'ch Rheolwr Atebol presennol fel canolwr. Fodd bynnag, os ydych chi'n gwneud cais am swydd mewn ysgol, neu swydd sy'n gofyn am gofrestru â ASGC, bydd yn rhaid i chi ddarparu enw dau ganolwr.

Geirdaon ar gyfer swyddi o fewn gofal cartref

Os ydych chi'n gwneud cais am swydd yn y Gwasanaeth Gofal Cartref, bydd yn rhaid i chi ddarparu enw dau ganolwr. Os ydych chi wedi newid cyflogwr mewn lleoliad gofal yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, bydd yn rhaid i chi nodi pob cyflogwr fel canolwr. Os nad oedd eich cyflogwr diwethaf yn lleoliad gofal, bydd yn rhaid i chi nodi'ch cyflogwr diwethaf mewn lleoliad gofal fel canolwr.

Datganiad

Gwnewch yn siŵr eich bod yn llofnodi ac yn nodi'r dyddiad ar eich ffurflen gais i gadarnhau bod yr wybodaeth yn gywir ar y pryd. Gall methu â darparu'r wybodaeth gywir arwain at dynnu cynnig o gyflogaeth yn ôl neu gymryd camau disgyblu. Gall hynny arwain at ddiswyddo.